

Dydd Sul, Rhagfyr 25 Dydd Nadolig

Carmel

9.00 a.m.

Oedfa yng ngofal y Gweinidog

Capel Coch

10.00 a.m.

Oedfa Gymun yng ngofal y Gweinidog

Cyhoeddiadau

CEFNYWAUN AC EBENESER

Dydd Sul, Rhagfyr 18: Cynhelir Oedfa Nadolig am 3.30 o'r gloch yng ngofal y Gweinidog, a chymerir rhan gan rai o'r ieuenctid. Croeso cynnes i chi ymuno â ni i ddathlu'r Nadolig.

CAPEL COCH A NANT PADARN

Dydd Sul, Rhagfyr 18: Ni fydd oedfa yn y bore. Bydd yr Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch. Cynhelir Gwasanaeth Nadolig dan ofal yr Ysgol Sul am 5.00 o'r gloch. Bydd Parti Nadolig y plant yn dilyn yr oedfa.

REHOBOTH

Dydd Sul, Rhagfyr 18: Ni fydd oedfa.

BETHLEHEM

Dydd Sul, Rhagfyr 18: Yr Ysgol Sul am 10.00 o'r gloch ac Oedfa Nadolig yng

Y mis nesaf - Deiniolen

Rhagfyr 11

5.00 p.m. - Mr Robert Morris

Rhagfyr 18

3.30 p.m. - Oedfa Nadolig

Rhagfyr 25

Dydd Nadolig

10.00 a.m. - Gwasanaeth Cymun yn Capel Coch

ngofal yr Ysgol Sul am 2.00 o'r gloch. Croeso cynnes i bawb.

CARMEL

Dydd Llun, Rhagfyr 12: Te Bach am 2.30 o'r gloch.

Nos Wener, Rhagfyr 16: Dwylo Prysyr am 6.30 o'r gloch.

Dydd Sul, Rhagfyr 18: Yr Ysgol Sul am 10.30 o'r gloch ac oedfa Nadolig yng ngofal yr Ysgol Sul am 4.00 o'r gloch. Croeso cynnes i chi ymuno i ddathlu'r Nadolig. Sylwch ar yr amser gwahanol.

DYFFRYN OGWEN

Nos Sul, Rhagfyr 18: Gwasanaeth Carolau i'r Gymuned yn Jerusalem, Bethesda am 7.00 o'r gloch.

CYNLLUN EFE

Dydd Llun, Rhagfyr 12: Cyfarfod Gweddi yn 'Cartref', Caeathro am 10.30 o'r gloch (i'w gadarnhau heno).



Y mis nesaf - Llanberis

Rhagfyr 11

10.00 a.m. - Y Gweinidog

11.15 a.m. - Ysgol Sul

5.00 p.m. - Gwasanaeth Undebol "Naw Llith a Charol" yn Capel Coch

Rhagfyr 18

10.00 a.m. - DIM OEDFA

11.15 a.m. - Ysgol Sul

5.00 p.m. - Gwasanaeth Nadolig yr Ysgol Sul a Pharti'r Ysgol Sul i ddilyn

Rhagfyr 25

Dydd Nadolig

10.00 a.m. - Gwasanaeth Cymun



Mae'n debyg mai un o fanteision cael coeden Nadolig artiffisial yw nad oes angen penderfynu bob blwyddyn pa faint o goeden i'w phrynu. "Ydi hon yn rhy fawr? Ydi hi'n rhy fach? Ai tair troedfedd, ynteu bedair, ynteu chwech fyddai'n gweddu orau eleni?"

Penderfynodd Cyngor Dinas Caerdydd logi 'coeden ddeugain' eleni; coeden artiffisial lliw aur â'i gwreiddiau yn China. Cytunwyd i logi'r goeden dros y tri Nadolig nesaf am £10,000 y flwyddyn. Roedd pobl y Brifddinas yn naturiol yn edrych ymlaen at weld y goeden ryfeddol 40 metr o uchder y tu allan i'r Castell yng nghanol y ddinas. Byddai bron cyn uchder â Thŵr Cloc mawreddog y Castell.

Wedi gosod y goeden, tipyn o embaras oedd sylweddoli mai 40 troedfedd oedd ei uchder, ac nid 40 metr; a hynny'n golygu, felly, ei bod deirgwaith yn llai nag a addawyd. Mae'n anodd deall beth yn union a ddigwyddodd gan fod y Cyngor wedi ymddiheuro ar y naill law am y camgymeriad ac wedi mynnu ar y llaw arall mai coeden 40 troedfedd a fwriadwyd o'r cychwyn. Hyd y gwelaf, y creadur bach a soniodd wrth y Wasg am 40 metr sy'n cael y bai.

Cafodd y Cyngor ei feirniadu a'i wawdio'n llym, nid yn unig am faint (neu ddiffyg maint) y goeden euraidd, ond hefyd am ei golwg. Mae'n siwr fod yna rai sy'n hoffi'r goeden. (Gobeithio wir a hithau wedi costio

Gronyn

Taflen wythnosol Gofalaeth Fro'r Llechen Las
Rhif 709: Dydd Sul, 11 Rhagfyr, 2016

Coeden ddeugain

£10,000 eleni!) Ond mae eraill wedi eu siomi, a hwythau wedi disgwyl gweld coeden fwy o lawer.

Yn anorod, caiff pobl eu siomi pan roddir gwybodaeth anghywir iddynt, neu pan na wireddir addewidion. Mor bwysig yw gofalu nad yw pobl yn cael eu siomi ym mhethau'r Ffydd. Gall yr Eglwys eu siomi; gall gweinidog eu siomi; gall pob un ohonom eu siomi mewn gwahanol ffyrdd. Ond nid yw'r Efengyl yn siomi neb, oherwydd ni all yr Efengyl, ac ni all y Ffydd siomi neb. Mae'r Efengyl yn addo bywyd i bawb sy'n credu yn y Gwardwr. Mae Crist yn cynnig gobaith i bawb a ddaw ato. Mae addewidion yr Efengyl yn gadarn, ac ni all Crist dorri ei addewid.

Ond y fath gyfrifoldeb sydd arnom i gyflwyno'r Efengyl a'r Ffydd yn ffyddlon, rhag i ni roi camagraff o'r hyn y mae Duw yn ei gynnig. Mae wedi addo maddeuant pechodau, ond ni addawodd y byddai Cristnogion yn berffaith yn y byd hwn. Mae wedi addo nerth a chymorth i wynebu pob math o flinderau, ond ni addawodd y byddai credinwyr yn osgoi trafferthion. Ni addawodd y byddai popeth yn mynd o'n plaid bob amser, ond mae wedi addo ein cynnal a'n diddanu trwy'r cyfan a ddaw. Ni addawodd ffortiwn i'r un ohonom, ond mae wedi addo'r cyfoeth mwyaf yn y nefoedd.

Nid yr Efengyl na'r Ffydd sy'n siomi, ond y camsyniadau sydd gan bobl yn eu cylch.

Gofalaeth Fro'r Llechen Las

Cefnywaun (P), Deiniolen
Ebeneser (A), Deiniolen
Capel Coch (P), Llanberis
Nant Padarn A), Llanberis
Rehoboth (P), Nant Peris
Bethlehem (A), Talybont
Carmel (A), Llanllechid

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd
Ffôn: 01286 872390
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:
gronyn.wordpress.com
neu gronyn.org

Balm o Salm

'Fel y dyhea ewig am ddyf-
roedd rhedegog, felly y dyhea
fy enaid amdanat ti, O Dduw. **BEIBL BYW**
Y mae fy enaid yn sychedu am Dduw,
am y Duw byw; pa bryd y dof ac ym-
ddangos ger ei fron? Bu fy nagrau'n
fwyd imi ddydd a nos, pan ofynnent imi
drwy'r dydd, "Ple mae dy Dduw?" (Salm
42:1-3).

Heddiw

Gwasanaethir yn Capel Coch am 10.00
o'r gloch gan y Gweinidog. Bydd yr
Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch. Cynhelir
Oedfa Undebol Naw Llith a Charol yn
Capel Coch am 5.00 o'r gloch.

Gwasanaethir yn Neiniolen am 3.30 o'r
gloch gan Mr Robert Morris, Penygroes.

Bydd yr Ysgol Sul yn Llanllechid am
10.30 o'r gloch. Gwasanaethir am 5.00
o'r gloch gan y Canon Idris Thomas,
Deiniolen.

Bydd yr Ysgol Sul yn Nhalybont am

10.00 o'r gloch, a gwasanaethir am 2.00
o'r gloch gan y Gweinidog.

Ni fydd oedfa yn Nant Peris heddiw.

Cofion

Anfonwn ein cofion at bawb sydd heb
fod yn dda, ac yn arbennig at bawb sy'n
methu â dod i'r oedfa ar hyn o bryd.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn yn ddwys â theulu Mrs
Margaret Cynfi Griffith, Cynfi, Deiniolen
a fu farw nos Lun diwethaf, Rhagfyr 5,
yng Nghartref Nyrsio Penisarwaun. Mae
ei marwolaeth yn ergyd fawr i ninnau yn
eglwys Cefnywaun ac yn yr Ofalaeth.

Roedd Margaret yn flaenor yn yr eglwys,
a rhoddodd oes o wasanaeth ffyddlon i'r
eglwys fel athrawes Ysgol Sul, organydd,
ysgrifennydd ac aelod gweithgar.
Gweithiodd yn ddiflino o fewn yr eglwys
ac yr oedd ei gofal am ei chyd-aelodau
yn fawr bob amser. Bu'n gyfaill ac yn
gefn cadarn i mi fel ei Gweinidog, ac ni
chefais ddim ond cymorth a chefnogaeth
lwyr ganddi ar hyd y blynyddoedd. Bu'n
frait mawr cael cydweithio â hi am bron
i ddeng mlynedd ar hugain. Bu hefyd yn
Ysgrifennydd Pwyllgor yr Ofalaeth am
flnyddoedd.

Cynhelir ei hangladd am 11.00 o'r gloch,
fore yfory, dydd Llun, Rhagfyr 12, yn
Eglwys Llandinorwig.

Dymunwn bob nerth a bendith i Emyr,
Iola a Glyn a'r teulu cyfan.

Carolau

Cynhelir Cyfarfod Carolau yng nghwmni
Carys Edwards a pharti Bytholwyrdd yn
Capel Coch am 2.00 o'r gloch bawn
Iau, Rhagfyr 15.

Codir tâl mynediad o £2.50 (yn cynnwys
te a mins pei) a bydd yr elw at Gyfeillion
Plas Pengwaith.

Croeso cynnes.

Cyfraniadau Capel Coch

Bydd llyfrau ariannol Capel Coch am
2016 yn cau ar Ragfyr 31. Bydd unrhyw
gyfraniad a dderbynnir wedi'r dyddiad
hwnnw yn cael ei nodi yng nghyfrifon
2017. Diolch am bob cydweithrediad yn
hyn o beth.

Carmel

Bydd llyfrau ariannol Capel Carmel yn
cau ar Ragfyr 31 hefyd. Diolch am bob
cydweithrediad yn hyn o beth.

Efe

Diolch i Andrew a Dafydd am fynd gyda
rhai o griw CIC Llanberis a CIC Llanrug
i'r sinema yng Nghyffordd Llandudno
echnos.

Hwn oedd gweithgaredd olaf y tymor, a
gobeithio fod pawb wedi mwynhau'r
ffilm a'r bwyd maethlon yn un o'r tai
bwyta crand wrth gerllaw'r sinema.

Bydd cyfarfodydd CIC yn ail gychwyn
yn y flwyddyn newydd.

Y Nadolig Llanberis

HENO, Nos Sul, Rhagfyr 11
5.00 p.m. Gwasanaeth Naw Llith a
Charol Undebol yn Capel Coch.

Dydd Iau, Rhagfyr 15
2.00 p.m. Cyfarfod Carolau Parti
Bytholwyrdd.

Nos Wener, Rhagfyr 16
6.30 p.m. "Hwyl yr Wyl" - Stori,
barddoniaeth, caneuon a phypedau yn
Eglwys Sant Padarn.

Dydd Sadwrn, Rhagfyr 17

"Teithio at y Stabl"

Gorymdaith Stori'r Nadolig yn cychwyn
o'r tu allan i Westy'r Heights am 2.00 o'r
gloch. Darlleniadau ar y daith, a gorffen
yn Eglwys Sant Padarn. Croeso cynnes i
bawb ymuno yn y dathlu.



Dydd Sul nesaf, Rhagfyr 18

Bethlehem

2.00 p.m. Oedfa Nadolig yr Ysgol Sul.

Carmel

4.00 p.m. Oedfa Nadolig yr Ysgol Sul.

Dyffryn Ogwen

7.00 p.m. Gwasanaeth Carolau i'r gym-
uned yng Nghapel Jerusalem, Bethesda,
gyda Chôr Meibion y Penrhyn, Côr y
Dyffryn, Corau Ysgol Dyffryn Ogwen ac
unigolion. Casgliad at achosion dyngarol.

Deiniolen

3.30 p.m. Oedfa Nadolig.

Capel Coch

5.00 p.m. Oedfa Nadolig yr Ysgol Sul,
a Pharti Nadolig y plant i ddilyn.